
# Cynllun Un Ffordd Prendergast

## Lleoliad: Prendergast

## Pam mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig y cynllun hwn?

- · Mae Prendergast yn darparu cysylltiadau pwysig ar gyfer symudiad cerddwyr i ddwy ysgol: Ysgol Gymunedol Prendergast ac Ysgol Uwchradd Wirfoddol a Reolir Hwlffordd.
- · Y prif lwybr i ganol y gymuned yw i fyny Rhiw Prendergast, ar hyd hen ffordd Aberteifi (B4329). Ar hyd y ffordd hon, fe welwch amrywiol siopau, tai preswyl a busnesau masnachol.
- · Mae'r llwybr yn un hanesyddol. Mae'n gul, gyda waliau cynnal uchel ar ei hyd, ac mae'r llwybr troed yn amrywio o ran lled, yn aml yn methu â darparu ar gyfer y rhai ag anghenion symudedd neu gadeiriau gwthio.
- · Mae'r llwybr hefyd yn ffordd gyfleus tuag at ganol y dref ar gyfer llawer o gerbydau, yn hytrach na defnyddio ffordd liniaru'r A40.
- · Mae parcio yn yr ardal bellach yn creu problem o ran diogelwch ar y ffyrdd. Mae preswylwyr lleol a'r sawl sydd am fynd i'r siop yn gyflym yn aml yn parcio ar linellau melyn dwbl ac ar fannau sydd i'w cadw'n glir. Mae hyn yn achosi oedi mewn llif traffig ac yn lleihau'r gerbytffordd i fod yn lôn sengl.



Proposed Scheme—All Routes

## Beth yw'r materion presennol?

- · Dim digon o leoedd parcio i breswylwyr, gan arwain at arferion parcio gwael
- · Ceir yn parcio ar droedffyrdd, ac ar linellau melyn dwbl, ac mewn mannau sydd i'w cadw'n glir
- · Dim digon o led troedffordd ar gyfer hygyrchedd a chadeiriau gwthio
- · Tagfeydd wedi'u hachosi gan draffig ysgol yn ystod cyfnodau brig y bore a'r prynhawn
- · Cynnydd yn nifer y cerddwyr a beicwyr (o fewn yr ardal)
- · Mwy o lif traffig ar hyd Teras Stepney, a ddylai ddefnyddio'r ffordd liniaru
- · Cynnydd yn llif y traffig o'r ysgolion ar hyd Lôn Gefn
- · Cystadleuaeth ymhlith busnesau'r ardal o ran y galw am le ar y ffordd
- · Culhau'r ffordd, gan gyfyngu'r capasiti






















1—Ymddygiad gwael gan yrwyr ar Lon Gefn allan I siopau 2—Parcio annoeth y tu 3—Tagfeydd yn sgil casglu plant o'r ysgol

4—Lôn lled un cerbyd oherwydd parcio gwael 5—Parcio yn atal mynedfeydd yn ystod oriau brig 6—Parcio gwael yn gysylltiedig ag ysgolion

PCC Transport

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government